RHAGLEN

09.30 Cofrestru a choffi

10.00 Gair o groeso a sylwadau agoriadol gan y Cadeirydd
Gaynor Richards MBE – Cyfarwyddwraig, Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot

10.05 Sesiwn 1 – Siaradwr Gwadd: Diogelu data a hawliau gwybodaeth yn y trydydd sector
Anne Jones – Comisiynydd Gwybodaeth Cynorthwyol, Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth

10.45 Sesiwn 2: Mudiadau Corfforedig Elusennol
Ben Harrison – Rheolwr Polisi cyfraith elusennau a rheoleiddio, Swyddfa'r Trydydd Sector

11.25 Coffi ac arddangosfa

11.45 Sesiwn 3 – Gweithdai
1. **Uno elusennau ac 'ymgorffori'**
   Giselle Davies – Ymgynghorydd Cyfraith Elusennau, Geldards
2. **Deall prydlesau a rheoli eiddo mewn dirwasgiad**
   Catherine Nightingale a Caroline O'Flaherty – Uwch Bartneriaid, Geldards
3. **Cymorth Rhodd, cymynroddion a dulliau eraill o roi yn dreth effeithiol**
   Eileen Kinsman – Swyddog Rhoi Cymru, WCVA
4. **Diweddariad ar gyfraith cyflogaeth y trydydd sector**
   Emma Burns – Partner, Geldards

12.45 Cinio ac arddangosfa

13.50 Sesiwn 4: Yr Awdurdod Diogelu Annibynnol a'r Cynllun Archwilio Cefndir a Gwahardd
Liz Flack – Pennaeth yr Uned Cofnodion Troseddol, WCVA

14.30 Sesiwn 5 – Gweithdai
1. **Rheoli hawliau eiddo deallusol**
   Ceri Delemore – Partner, Geldards
2. **Elusennau, masnachu a materion treth**
   Andrew Evans – Partner, Geldards
3. **Elusennau ac ansolfedd**
   Geraint Tilsley – Uwch Bartner, Geldards
4. **Diweddariad ar gyfraith cyflogaeth y trydydd sector**
   Emma Burns – Partner, Geldards

15.30 Paned ac arddangosfa

15.50 Session 6: Charities and public benefit
Tony George – Legal Adviser (Status and Public Benefit), Charity Commission

16.30 Diolchiadau'r Cadeirydd a'r sylwadau clo

SESIYNAU'R CYFARFOD LLAWN:

Diogelu data a hawliau gwybodaeth yn y trydydd sector: Mae pob un ohonom yn gwerthfawrogi'r data sy'n cefnogi gweithgarwch ein mudiad ac yn deall pam fod angen trin y wybodaeth honno'n deg, ond mae llawer o bobl yn dal yn ddryslyd ynghylch goblygiadau ymarferol deddfwriaeth diogelu data. Yn yr anerchiad agoriadol, bydd Anne Jones yn amlinellu'r drefn ddiogelu data bresennol, yn ystyried sut mae'n effeithio ar fudiadau'r trydydd sector ac yn tynnu sylw at feysydd penodol megis rheoli a defnyddio cofnodion aelodau a marchnata uniongyrchol. Yn ogystal â hynny, bydd y cyflwyniad yn taro golwg sydyn ar ddatblygiadau diogelu data i'r dyfodol o safbwynt y sector, ac effaith bosibl goblygiadau rhyddid gwybodaeth ar fudiadau sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus.

Mudiadau Corfforedig Elusennol: Mae'r sector elusennau wedi bod yn disgwyl am y strwythur corfforaethol unigryw newydd hwn ers oesoedd – ond a fydd yn bodloni ein disgwyliadau? Bydd Ben Harrison yn amlinellu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer Mudiadau Corfforedig Elusennol, yn egluro sut mae'n wahanol i'r strwythurau cwmni presennol, yn tynnu sylw at ei fanteision ac yn crynhoi'r ddogfennaeth enghreifftiol sydd wrth gefn iddo.

Yr Awdurdod Diogelu Annibynnol a'r Cynllun Archwilio Cefndir a Gwahardd: Caiff newidiadau pwysig mewn deddfwriaeth a gweithdrefnau diogelu eu cyflwyno'n raddol o fis Hydref 2009, a bydd hyn yn effeithio ar bob elusen sy'n cyflogi staff a/neu'n defnyddio gwirfoddolwyr i weithio gyda grwpiau agored i niwed. Bydd Liz Flack yn amlinellu cynllun cofrestru gorfodol newydd yr Awdurdod Diogelu Annibynnol ac yn ystyried sut bydd yn gweithio ochr yn ochr â mesurau diogelu presennol datgeliadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol.

Elusennau a budd cyhoeddus: Cyflwynodd Deddf Elusennau 2006 ofyniad bod pobl elusen yn dangos yn glir y budd cyhoeddus a ddarparant, ac yn adrodd ar hynny. Bydd Tony George yn egluro beth yw ystyr budd cyhoeddus a'r egwyddorion allweddol sy'n sail iddo, gan gyfeirio'n benodol at y canllawiau y mae'r Comisiwn Elusennau wedi'u cyhoeddi. Cynigir arweiniad ymarferol hefyd i ymddiriedolwyr ar adrodd ar fudd cyhoeddus a bydd adroddiadau blynyddol ymddiriedolwyr ar gael i daro golwg drostynt.

GWEITHDAI:

Uno elusennau ac 'ymgorffori': nid oes llawer o amser wedi mynd heibio ers pan oedd y Comisiwn Elusennau'n annog elusennau i uno am resymau arbedion maint ac er mwyn osgoi dyblygu darpariaeth, ond nawr mae'r dirwasgiad yn golygu bod rhesymau hollol wahanol dros wneud hynny. Bydd Giselle Davies yn edrych ar y materion cyfreithiol ac ymarferol wrth uno, yn rhoi sylw i rai o'r problemau cyffredin sy'n ymwneud ag 'ymgorffori', yn cynnig arweiniad ar reoli'r broses ac yn ystyried sut gallai darpariaethau newydd dan Ddeddf Elusennau 2006 helpu.

Deall prydlesau a rheoli eiddo mewn dirwasgiad: Mae bod yn berchen ar eiddo neu brydlesu eiddo yn un o'r costau mwyaf i fudiad i'w reoli, ond mae pwysau'r dirwasgiad yn gorfodi perchnogion a meddianwyr i ateb cwestiynau cyfreithiol anodd. Bydd Catherine Nightingale a Caroline O'Flaherty yn edrych ar brif delerau prydlesau y mae angen i chi fod yn gyfarwydd â nhw, ac yn trafod sut y byddwch yn trin eich landlord neu'n rheoli eich prydles yn ystod y wasgfa gredyd. Bydd y sesiwn hefyd yn edrych ar strategaethau i osgoi sefyllfa o fethu talu, dulliau o amrywio telerau'r brydles i ddiogelu eich sefyllfa a strategaethau ymadael effeithiol.

Cymorth Rhodd, cymynroddion a dulliau eraill o roi yn dreth effeithiol: Mae elusennau ar hyn o bryd yn colli miliynau o bunnoedd a allai fod yn eu coffrau oherwydd nad ydynt yn manteisio i'r eithaf ar roi'n dreth effeithiol. Bydd Eileen Kinsman yn amlinellu'r drefn yn ymwneud â Chymorth Rhodd, cymynroddion, rhoi cyfranddaliadau a rhoi drwy'r gyflogres, ac yn eu gosod mewn cyd-destun strategaeth codi arian yn dreth effeithiol a gaiff ei lunio er mwyn gwneud yr incwm mwyaf posib.

Diweddariad ar gyfraith cyflogaeth y trydydd sector: Mae'r cyfuniad o newidiadau statudol parhaus a gyflwynwyd gan Ddeddf Cyflogaeth 2008 ac effaith yr hinsawdd economaidd anodd yn cyflwyno nifer o heriau i gyflogwyr a staff, ill dau. Bydd Emma Burns yn rhoi'r newyddion hanfodol diweddaraf am y datblygiadau o ran deddfwriaeth ac achosion ym maes cyfraith cyflogaeth. Bydd y sesiwn hefyd yn canolbwyntio ar y penderfyniad i ddiddymu'r gweithdrefnau datrys anghydfodau statudol a'r goblygiadau ynghylch sut dylai mudiadau'r trydydd sector ddelio â materion disgyblu a chwyno. Darperir hefyd arweiniad ymarferol gwerthfawr am ddelio gyda newidiadau yn y gweithlu o ganlyniad i'r dirywiad economaidd.

Rheoli hawliau eiddo deallusol: Mae hawliau Eiddo Deallusol yn effeithio ar bob agwedd o weithgarwch elusen, boed hynny'n ymwneud â hawlfraint neu batentau, defnyddio logo, neu unrhyw wybodaeth a deunyddiau a ddefnyddir. Ond nifer fach iawn sy'n deall yr hawliau hyn. Bydd Ceri Delemore yn rhoi cyflwyniad bras i'r gyfraith, a thrwy gyfrwng astudiaeth achos, yn archwilio rhai o'r problemau allweddol sy'n gallu codi o safbwynt Eiddo Deallusol megis perchnogaeth a thorri amodau, a'r dulliau ymarferol o reoli'r problemau hynny.

Elusennau, masnachu a materion treth: Wrth i elusennau geisio amrywio eu strategaethau cynhyrchu incwm drwy fasnachu mwy, rhaid gofyn a ydynt yn trefnu'r gweithgareddau hyn yn y ffordd fwyaf treth effeithiol? Bydd Andrew Evans yn defnyddio astudiaeth achos i edrych ar yr amgylchiadau pan nad oes angen is-gwmni masnachu ar elusen - sy'n golygu y gallai hyn arbed costau gweinyddol rhedeg is-gwmni. Bydd y sesiwn hefyd yn cynnig rhai syniadau i elusennau ar gyfer gwneud arbedion treth ac yn adolygu achosion treth diweddar.

Elusennau ac ansolfedd: Mae trin a thrafod ansolfedd yn fater anodd i unrhyw fudiad, ond mae'n ddoeth i gynllunio ar gyfer y gwaethaf. Gan ddefnyddio cyfres o astudiaethau achos, bydd Geraint Tilsley yn edrych ar faterion yn ymwneud â chyfraith ansolfedd a wynebir gan elusennau, eu his-gwmnïau masnachu, cwsmeriaid a chyflenwyr. Bydd y gweithdy'n rhoi sylw i sut mae natur dyletswyddau ymddiriedolwyr wedi ehangu, camau i osgoi atebolrwydd personol ac effaith ansolfedd ar gyllido. Darparir cyngor hefyd ynghylch effaith ansolfedd ar eich contractau.

Mewn partneriaeth â

Geldards
law firm

Yn rhoi cefnogaeth wirfoddol i Gynhadledd Cyfraith Elusennau Cymru.

75
1934•2009

Cyngor Gwirfoddol Cymru
wcva
Wales Council for Voluntary Action

Geldards
law firm

Wales Charity Law Conference 2009

Parc Hotel, Cardiff, 21 May 2009

As optimism gives way to caution, charities have to balance the conflicting objectives of embracing change and planning for recession. This year's conference looks at the key developments trustees need to know about, and offers practical guidance on some of the legal options that may help charities navigate the difficult times ahead.

But, we can't forget those existing areas of regulation that impact on every third sector organisation – and no subject raises more questions than that of data protection. Anne Jones, the Assistant Information Commissioner, gives a Keynote address on the ways we can better manage data protection, and looks ahead to the possible impact freedom of information legislation may have on the sector.

Audience

This leading national conference will be of value to charity trustees, governing body members, advice workers and all those involved in management within the third sector.

A mix of practically focused presentations and breakout sessions include:

- The Charitable Incorporated Organisation
- CRB checks and the new safeguarding regime
- Charity mergers and 'incorporation'
- Managing leases in a recession
- Key employment developments

…and much more.

'There was lots of information to increase my knowledge and help with my work'

'Very interesting – extremely useful'

'As ever, an excellent conference with good and relevant content, well organised and delivered'

EARLY BOOKING RECOMMENDED!

PROGRAMME

09.30 Registration and coffee

10.00 Chair's welcome and opening remarks
Gaynor Richards MBE – Director, Neath Port Talbot Council for Voluntary Service

10.05 Session 1 – Keynote: Data protection and information rights in the third sector
Anne Jones – Assistant Information Commissioner, Information Commissioner's Office

10.45 Session 2: The Charitable Incorporated Organisation
Ben Harrison – Policy Manager charity law and regulation, Office of the Third Sector

11.25 Coffee and exhibitions

11.45 Session 3 – Breakout groups
1. **Charity mergers and 'incorporation'**
   Giselle Davies – Charity Law Consultant, Geldards
2. **Understanding leases and managing property in a recession**
   Catherine Nightingale & Caroline O'Flaherty – Senior Associates, Geldards
3. **Gift Aid, legacies and other forms of tax-effective giving**
   Eileen Kinsman – Giving Wales Officer, WCVA
4. **Third sector employment law update**
   Emma Burns – Partner, Geldards

12.45 Lunch and exhibition

13.50 Session 4: Independent Safeguarding Authority and the Vetting Barring Scheme
Liz Flack – Head of Criminal Records Unit, WCVA

14.30 Session 5 – Breakout groups
1. **Managing intellectual property rights**
   Ceri Delemore – Partner, Geldards
2. **Charities, trading and tax issues**
   Andrew Evans – Partner, Geldards
3. **Charities and insolvency**
   Geraint Tilsley – Senior Associate, Geldards
4. **Third sector employment law update**
   Emma Burns – Partner, Geldards

15.30 Tea and exhibition

15.50 Session 6: Charities and public benefit
Tony George – Legal Adviser (Status and Public Benefit), Charity Commission

16.30 Chair's thanks and closing remarks

PLENARY SESSIONS:

Data protection and information rights in the third sector: We all value the data that supports our organisation's activities and understand we have to process it fairly, but many still remain confused by the practical implications of the data protection legislation. In a keynote presentation, Anne Jones sets out the prevailing data protection regime, considers how it impacts on third sector organisations and highlights specific areas such as managing and utilizing membership records and direct marketing. In addition, the presentation briefly looks ahead to future data protection developments for the sector, and the potential impact of freedom of information obligations on organisations delivering public services.

The Charitable Incorporated Organisation: For what seems like an age now, the charity sector has been waiting for this new bespoke corporate structure – but will it deliver on our expectations? Ben Harrison sets of the legal framework for the CIO, explains how it differs from existing company forms, highlights its advantages and summarises the model documentation that supports it.

Independent Safeguarding Authority and the Vetting Barring Scheme: Important changes in safeguarding legislation and procedure are due to be phased in from October 2009, and all charities that employ staff and/or use volunteers to work with vulnerable groups will be affected. Liz Flack sets out the new mandatory ISA registration scheme and considers its interaction with the current safeguarding measures of CRB disclosures.

Charities and public benefit: The Charities Act 2006 introduced a requirement that all charities explicitly demonstrate, and report on, the public benefit they deliver. Tony George explains the meaning of public benefit and the key principles underpinning it, with specific reference to Charity Commission's published guidance. Practical guidance will also be offered for trustees on reporting public benefit and example trustee annual reports will be made available.

BREAKOUT SESSIONS:

Charity mergers and 'incorporation': not that long ago the Charity Commission was encouraging charity mergers to achieve economies of scale and avoid duplication of provision, but now recession puts the focus on them for very different reasons. Giselle Davies examines the legal and practical issues surrounding mergers, addresses some of the common problems surrounding 'incorporation', offers guidance on managing the process and considers how new provisions under the Charities Act 2006 can help.

Understanding leases and managing property in a recession: Owning or leasing property is one of the biggest expenses an organisation has to manage, but recessionary pressures are now forcing both owners and occupiers to address difficult legal questions. Catherine Nightingale and Caroline O'Flaherty examine the main lease terms you need to be familiar with, and discuss how to handle your landlord or manage your lease during the credit crunch. The session will also look at strategies to avoid default situations, ways of varying lease terms to protect your position and effective exit strategies.

Gift Aid, legacies and other forms of tax-effective giving: Charities are currently missing out on millions of pounds that could be theirs simply because they are not making the most of tax-effective giving. Eileen Kinsman sets out the regimes surrounding Gift Aid, legacies, share and payroll giving, and puts them in the context of a tax-effective fundraising strategy designed to maximise income.

Third sector employment law update: A combination on ongoing statutory changes introduced by the Employment Act 2008, and the effects of a difficult economic climate, present a number of challenges for employers and staff alike. Emma Burns provides an essential update on the latest legislative and case developments in employment law. The session will also focus on the repeal of the statutory dispute procedures and the implications for how third sector organisations should be dealing with disciplinary and grievance issues. And, valuable practical guidance will be provided on dealing with workforce changes resulting from the economic downturn.

Managing intellectual property rights: Whether its copyright or patents, use of our logo or information and materials we want to use, Intellectual Property rights impact on every aspect of charity activity, but are so little understood. Ceri Delemore provides a brief introductory overview of the law and, by way of a case study, explores some of the key problems that can arise from an Intellectual Property perspective such as ownership and infringement, and the practical ways to manage them.

Charities, trading and tax issues: As charities seek to diversify their income generation strategies through increased trading, are they organising these activities in the most tax efficient way? Andrew Evans uses a case study example to look at the circumstances when a charity does not require a trading subsidiary and can save the administration costs of running a subsidiary company. The session will also touch on tax saving ideas for charities and review recent tax cases.

Charities and insolvency: No organisation likes to contemplate insolvency, but forewarned is forearmed. Using a series of case studies Geraint Tilsley examines the insolvency law issues faced by charities, their trading subsidiaries, customers and suppliers. The workshop covers the enhanced nature of trustees' duties, steps to avoid personal liability, the impact of insolvency on funding and there will also be advice regarding the impact of insolvency on your contracts.

In partnership with

Geldards
law firm

Supporting the Wales Charity Law Conference on a voluntary basis.

75
1934 • 2009

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
wcva
Wales Council for Voluntary Action

Geldards
law firm

Cynhadledd Cyfraith Elusennau Cymru 2009

Gwesty'r Parc, Caerdydd, 21 Mai 2009

Mewn cyfnod lle mae pobl yn fwy gofalus na gobeithiol, rhaid i elusennau gyflawni'r dasg anodd o gael cydbwysedd rhwng cofleidio newid a chynllunio ar gyfer dirwasgiad. Bydd cynhadledd eleni'n edrych ar y datblygiadau allweddol y dylai ymddiriedolwyr fod yn ymwybodol ohonynt, ac yn cynnig arweiniad ymarferol ar rai o'r dewisiadau cyfreithiol a allai helpu elusennau i gadw ar y llwybr cul yn y cyfnod anodd sydd o'n blaenau.

Ond, ni allwn chwaith anghofio'r rheoliadau presennol sy'n effeithio ar bob mudiad yn y trydydd sector - a heb os nac oni bai, mae diogelu data yn bwnc llosg. Anne Jones, y Comisiynydd Gwybodaeth Cynorthwyol, fydd yn rhoi'r anerchiad agoriadol ar y ffyrdd y gallwn reoli diogelu data'n well. Bydd hi hefyd yn edrych ar yr effaith bosib y gallai deddfwriaeth rhyddid gwybodaeth ei chael ar y sector.

Y gynulleidfa

Bydd y gynhadledd genedlaethol hon, sydd ar flaen y gad, yn fuddiol i ymddiriedolwyr elusennau, aelodau cyrff llywodraethu, gweithwyr cynghori a phawb sydd â rolau rheoli yn y trydydd sector.

Bydd cymysgedd o gyflwyniadau sy'n edrych ar yr elfennau ymarferol a grwpiau trafod yn cynnwys:

- Archwiliadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol a'r drefn ddiogelu newydd
- Uno elusennau ac 'ymgorffori'
- Rheoli prydlesau mewn dirwasgiad
- Datblygiadau allweddol ym maes cyflogaeth

...a llawer iawn mwy.

'Cafwyd llawer o wybodaeth i wella fy nealltwriaeth ac i helpu gyda'm gwaith'

'Diddorol iawn – hynod o ddefnyddiol'

'Cynhadledd ardderchog, fel arfer, wedi'i threfnu a'i chyflwyno'n dda, gyda chynnwys perthnasol a defnyddiol'

FE'CH CYNGHORIR I ARCHEBU'CH LLE'N GYNNAR!